# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MAWRTH, 5 MEDI 2017 AM 12.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd C E Lloyd (Is Gadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | M Thomas | R Francis-Davies |
| A S Lewis | W Evans | M Sherwood |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D H Hopkins, J A Raynor a/ac R C Stewart

45. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

46. **GWAHARDD Y CYHOEDD: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

47. **PRYNU ARFAETHEDIG EIDDO PRESWYL ER MWYN HWYLUSO'R BROSES AIL-LEOLI O'R CYFLEUSTER PRESENNOL.**

Cyflwynodd Aelodau'r Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes ac Iechyd a Lles adroddiad ar y cyd yn gofyn am ystyried caffael eiddo preswyl er mwyn hwyluso ail-leoli Cartref Plant presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Nant-y-felin, Blaen-y-maes.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel a nodwyd yn yr adroddiad.

## 48. ADOLYGIAD DEPO.

Cyflwynodd yr Aelodau Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes a Gwasanaethau'r Amgylchedd adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am awdurdod i swyddogion "brynu'n ôl" y brydles tir hir sy'n weddill ar safle 4x4 Bro Tawe yng Nghlôs Ferryboat fel rhan o ail-leoli parhaus Cei Pipehouse dan yr adolygiad depo.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel a nodwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.12 pm

**CADEIRYDD**

**Cyhoeddedig: 5 Medi 2017**